# Y Synhwyrau

**Tasg**

Caewch eich llygaid a meddyliwch yn ôl i'r amser pan oeddwch yn 7 mlwydd oed. Lle oeddech chi'n byw? Pwy oedd eich ffrind gorau? Beth oeddech chi'n caru? Beth oeddech chi'n casáu? Pa ddillad oeddech chi'n gwisgo? Beth oeddech chi'n gwneud ar y penwythnosau? Sut le oedd eich ystafell ddosbarth?...

Agorwch eich llygaid a nodwch un peth yr ydych yn cofio:

**Gweld**

**Clywed**

**Teimlo**

**Arogli**

**Blasu**

# Haicw (1)

Hen fesur o Siapan yw'r Haicw ac mae'n dilyn patrwm sillafau arbennig.

| | |
|---|---|
| Dwylo gwaith fy nhad | 5 sillaf |
| yn galed a charedig | 7 sillaf |
| ac oer fel marmor. | 5 sillaf |

**Tasg**

Ysgrifennwch Haicw am un o'r atgofion wnaethoch chi nodi yn yr ymarfer Synhwyrau.

# Haicw (2)

| | |
|---|---|
| Bore o wanwyn | 5 sillaf |
| â'r gwenyn yn busnesan | 7 sillaf |
| a'u bysedd yn fêl. | 5 sillaf |

**Tasg**

Gorffennwch yr Haicw isod.

Aeth dail yr hydref

# Limrig

Mesur sionc a doniol yw'r Limrig sy'n dilyn patrwm curiadau ac odlau arbennig.

| | |
|---|---|
| Roedd dyn bach yn byw yn Hong Kong | 3 churiad |
| Oedd yn hoff iawn o chwarae ping pong, | 3 churiad |
| Doedd ganddo ddim bat | 2 guriad |
| na phêl come-to-that... | 2 guriad |
| Deud 'gwir roedd o'n chwara' fo'n rong. | 3 churiad |

**Geraint Lovgreen**

**Tasg**

Gorffennwch y Limrig isod.

Roedd dynes yn byw ym Mhwllheli...

# Telyneg

Dyma rai nodweddion sy'n gwneud Telyneg dda:

- Cynnil
-Teimladwy
-Gwneud rhywbeth mawr yn fach neu rywbeth bach yn fawr
- Gwreiddiol
- Odl?
- Mesur?

**Tasg**

Meddyliwch am berson rydych chi wedi gweld yn ystod yr wythnos ddiwethaf - ddim rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, ond rhywun wnaethoch chi sylwi arnynt ar hyd y lle. - beth oedden nhw'n gwisgo? Beth oedd oed y person? Lle oedden nhw'n mynd? Lle maen nhw'n byw? Sut maen nhw'n teimlo a pham? Beth yw eu stori? Dydych chi ddim o reidrwydd yn mynd i wybod yr atebion hyn, ond crëwch ddarlun o'r person yma ar ffurf Telyneg.

**Enw:**

# Tro Gwael

Gwisgodd ei grys West Ham,
er ei fod yn rhy fach yn barod,
i ddangos fod yr anrheg
pen-blwydd yn plesio.

Daeth â'i albwm sticeri
fel y gwelai mor ddiwyd y bu.

Bu'n ymarfer,
yn gyrru'i fam o'i cho'
â sŵn y bêl
yn dyrnu talcen y tŷ.

A neithiwr,
gwyliodd y gêm
fel bod ganddo sgwrs.

Ond ar ei ben ei hun
ar fainc yn y parc
y treuliodd y bore
yn magu'r bêl yn ei gôl.

**Gwennan Evans**